



Beth rydym ni'n ei wneud ar ol cael eich cwyn **Taflenni Ffeithiau**

Cynnwys

Mae'r daflen wybodaeth hon yn esbonio beth sy'n digwydd pan gyflwynwch gŵyn i'r Ombwdsmon am ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae hefyd yn esbonio'r gwahanol ddulliau gweithredu y gall yr Ombwdsmon a'i staff eu defnyddio i helpu i ddatrys cwyn o'r fath. Nid yw'n ymdrin â holl fanylion ein gweithdrefnau, mae crynodeb o'r rhain ar gael yma.

Cwynion newydd

Caiff pob cwyn newydd ei hystyried gan Dîm Asesu Cwynion yr Ombwdsmon a fydd yn cydnabod derbynneb y gŵyn ac yn hysbysu'r aelod a gyhuddwyd, Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol a Chlerc y Cyngor Cymuned perthnasol (os yn briodol) ohono a'u darparu â chopi. Rhaid i unrhyw gŵyn o'r fath fod wedi'i hategu gan dystiolaeth uniongyrchol, yn hytrach na honiadau. Gallwn gysylltu â chi i gael mwy o fanylion pan fo angen. Wrth gyflwyno cwyn, rhaid i chi ddeall y bydd eich manylion yn cael eu datgelu i'r aelod rydych chi'n cwyno amdano neu amdani ac, os oes angen, rhaid i chi fod yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i gefnogi eich honiad.

Yna, caiff pob cwyn, ac unrhyw wybodaeth ategol, ei harchwilio yn erbyn prawf dau gam. Yn gyntaf, byddwn yn ystyried a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Yn ail, byddwn yn ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad neu gyfeirio'r achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Wrth wneud hynny, ystyrir nifer o ffactorau er budd y cyhoedd, fel: a yw aelod wedi mynd ati'n fwriadol i geisio sicrhau budd personol i'w hun neu i rywun arall ar draul y cyhoedd neu wedi camdefnyddio sefyllfa oymddiriedaeth, a oes angen ymchwiliad er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd mewn aelodauetholedig neu a yw ymchwiliad yn opsiwn cymesur yn yr amgylchiadau. Pan fydd gennymddigon o wybodaeth i asesu eich cwyn, byddwn yn ceisio dweud wrthy'ch o fewn chwe wythnos a yw'r Ombwdsmon yn bwriadu ymchwilio i'ch cwyn ai peidio. Fodd bynnag, pan nad yw'n bosib, fe wnawn adael i chi wybod.

Os na allwn dderbyn eich cwyn

Os nad yw cwyn yn bodloni'r prawf dau gam, cewch eglurhad ysgrifenedig. Anfonir copi hefyd at bawb a gafodd eu hysbysu cyn hynny.

Os penderfynwn ymchwilio i'ch cwyn

Os penderfynwn ymchwilio i'ch cwyn, fe'i gynhelir gan un o ymchwilyr yr Ombwdsmon. Gall ef neu hi gysylltu â chi i drafod eich pryderon ac egluro beth fydd yn digwydd nesaf. Byddwn bob amser yn ysgrifennu atoch chi a'r partion eraill a hysbyswyd i gadarnhau ein penderfyniad i ymchwilio. Ar y cam hwn, fel rheol bydd yr Ymchwiliwr yn cael mwy o dystiolaeth ddogfennol berthnasol, tystiolaeth gan dystion a thystiolaeth gan yr Aelod a gyhuddwyd.

Mae pob ymchwiliad yn amrywio ac er y gallai fod angen cyfweid â'r bobl dan sylw, gellir cwblhau rhai achosion drwy archwilio dogfennau'n unig. Ein nod yw cwblhau pob ymchwiliad o fewn 12 mis ond cwblheir y rhan fwyaf ohonynt yn gynt na hyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am hynt yr ymchwiliad. Os byddwn, am unrhyw reswm, yn penderfynu bod rhaid i ni roi'r gorau i'n hymchwiliad, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro'r penderfyniad hwn.

Cynhelir ymchwiliadau yr Ombwdsmon yn breifat. Felly gofynnir i chi beidio â chysylltu, na thrafod manylion y gŵyn neu unrhyw wybodaeth y byddwn ni'n ei rhannu â chi, ag unrhyw dystion posibl neu bobl a allai fod yn rhan o'r mater – boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – er mwyn gwneud yn siŵr nad oes dim yn amharu ar yr ymchwiliad. Pan fydd gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen, byddwn yn ysgrifennu adroddiad neu lythyr i amlinellu'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried a'r casgliadau yr ydym wedi'u ffurfio.

Canlyniadau ymchwiliadau

Os down i'r casgliad nad oes tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad, byddwn yn cau'r ymchwiliad ac yn rhoi rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad hwn i bob parti.

Os oes awgrym, ar ôl adolygu'r dystiolaeth, bod y Cod wedi cael ei dorri, gall yr Ombwdsmon dan rai amgylchiadau benderfynu na ddylid cymryd camau pellach.

Os yw'r Ombwdsmon yn canfod bod cwyn wedi'i chyfiawnhau ac, os bydd hefyd yn ystyried y byddai hynny er budd y cyhoedd, gall ei chyfeirio naill ai at Bwyllgor Safonau'r awdurdod dan sylw, neu at driwlynys wedi'i gynnwll gan Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad am y materion. Anfonir copi o adroddiad yr Ombwdsmon hefyd at yr aelod a gyhuddwyd. Cewch wybod am gasgliadau'r Ombwdsmon, ac efallai y darperir crynodeb o'r adroddiad er gwybodaeth i chi. Bydd fersiwn llawn yr adroddiad yn aros yn gyfrinachol nes i'r Pwyllgor Safonau neu'r triwlynys wneud penderfyniad am y materion.

Os byddwch yn anfodlon â'n penderfyniad

Wedi i ni benderfynu peidio ag ymchwilio i gŵyn yn erbyn aelod etholedig dewis cau ymchwiliad, neu benderfynu nad yw camau pellach yn briodol, mae ein tasg ar ben i bob pwrpas, a chaiff y ffeil ei chau. Ni wnawn ailagor achos dim ond am eich bod chi'n anghytuno â'n penderfyniad o bosib, ond gallwch wneud cais ysgrifenedig (o fewn ugain diwrnod gwaith) i ni adolygu eich achos os: oes gennych dystiolaeth newydd berthnasol i'w ddangos i ni; neu y gallwch ddangos nad ydym wedi ystyried y wybodaeth a oedd gennym yn briodol wrth wneud ein penderfyniad. Bydd Swyddog Adolygu ac Ansawdd Gwasanaeth yr Ombwdsmon yn ystyried a oes sail i adolygu eich cwyn ac os oes angen cymryd camau pellach.

Cysylltwch â ni:

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â [ni](#).

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203